## Swydd Ddisgrifiad

**Teitl Swydd:** Cydlynydd Cefnogaeth Prosiect Ffrindiau Gigiau Gogledd Cymru

**Gradd:** Gradd C ADC

**Oriau:** 15 awr yr wythnos

**Atebolrwydd:** Yn atebol i'r Rheolwr Arloesi

**Diben:** Darparu cymorth gweinyddol, digwyddiadau a chyfathrebu. Darparu cefnogaeth rôl i'r Llysgennad.

**Cyfrifoldebau**

1. **Gweinyddu:**

- Cefnogi'r Cydlynwyr gyda'n cyfranogwyr a'n gwirfoddolwyr:

- prosesu ceisiadau.
- cadw manylion cyfranogwyr a gwirfoddolwyr ar ein systemau.
- prosesu ceisiadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chael geirdaon ar gyfer gwirfoddolwyr.
- trefnu hyfforddiant gwirfoddolwyr.
- prosesu treuliau a Chredydau Amser Tempo i wirfoddolwyr.
- monitro a phostio yn ein grwpiau WhatsApp.

- Rheoli ein systemau ffeilio ac archifo electronig.

- Defnyddio amrywiaeth o feddalwedd i gynhyrchu dogfennau creadigol a hawdd eu deall, adroddiadau data a chyflwyniadau.

- Cofnodi neu drawsgrifio cyfarfodydd tîm Ffrindiau Gigiau, cyfarfodydd y Grŵp Cynghori a chyfarfodydd eraill yn ôl yr angen.

- Dod o hyd i ddeunydd ysgrifennu, offer a nwyddau, a'u prynu.

**2. Digwyddiadau**

- Cynorthwyo'r tîm i drefnu a hyrwyddo digwyddiadau cymdeithasol a stondinau, gan gynnwys cynhyrchu gwybodaeth hawdd ei deall.
- Mynychu digwyddiadau cymdeithasol a stondinau o bryd i'w gilydd i hyrwyddo gwaith Ffrindiau Gigiau.

**3. Cyfathrebu**

- Cynhyrchu negeseuon e-bost hawdd eu deall, gan gynnwys cylchlythyr.
- Cefnogi cyfranogwyr a gwirfoddolwyr i gynhyrchu clipiau fideo.
- Dod o hyd i ddigwyddiadau, lleoliadau a sefydliadau i hyrwyddo'r prosiect a thargedu recriwtio gwirfoddolwyr.
- Datblygu a chynnal cronfa o luniau.

**4. Cefnogaeth i'r Llysgennad**

- Cefnogi'r Llysgennad i'w helpu i gyflawni eu rôl yn ôl yr angen.

**5. Pwynt cyswllt cyntaf**

- Fel prif bwynt cyswllt y prosiect, ymateb i'r holl alwadau ffôn, negeseuon e-bost a negeseuon cyfryngau cymdeithasol.  Gweithredu lle bo hynny'n briodol.

**6. Arall**

- Gweithio'n agos gyda thîm Ffrindiau Gigiau Cymru.
- Cyfrannu'n weithredol at waith y sefydliad.
- Ymgymryd ag ystod o ddyletswyddau i sicrhau bod darpariaethau gwasanaeth presennol a dyfodol yn cael eu bodloni.

| | |
|---|---|
| Yn weithredol o | Awst 2025 |
| Cymeradwywyd gan | Zoe Richards, Prif Swyddog Gweithredol a Karen Warner, Rheolwr Arloesi |
| Derbyniwyd gan | |